***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, RHAN 1. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

# CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

## RHAN 1

## CYNLLUNIO CWRICWLWM

*Cymhwyso*

1 Mae'r Rhan hon yn gymwys at ddibenion adran 24(3) (darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I3** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

*Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—

(a) ysgol gymunedol;

(b) ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.

(2) Rhaid bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I5** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I6** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

*Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo'r ddarpariaeth honno yn cyd-fynd—

(a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu

(b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(4) Yn yr achosion hynny, rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd yn cyd-fynd â'r darpariaethau hynny neu (yn ôl y digwydd) y daliadau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I8** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I9** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

*Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol*

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i'r ddarpariaeth gyd-fynd—

(a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu

(b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan is-baragraff (2) yn ddarpariaeth sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig.

(4) Yn yr achosion hynny, rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae rhaid ei bod wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I11** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I12** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, RHAN 1.